Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 758 (Cy. 109)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 i adlewyrchu newidiadau a wnaed gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017. Maent yn ychwanegu cyfeiriadau at y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'r Swyddfa Fyfyrwyr, ac yn dileu cyfeiriadau at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 758 (Cy. 109)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Mehefin 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *21 Mehefin 2024* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 253A(2)(c)(**1**) ac adran 262(3)(c) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**2**).

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Awst 2024.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2017" yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**3**).

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017**

**3.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau 2017, yn y diffiniad o "darparwr dysgu" ar ôl "Weinidogion Cymru"

(**1**) Gweler adran 253A(3) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 am y diffiniad o "prescribed".

(**2**) 2009 p. 22. Mewnosodwyd adran 253A gan adran 79(1) o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (p. 26) ac fe'i diwygiwyd gan adran 58 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5), a pharagraff 9(2) o Atodlen 4 iddi.

(**3**) O.S. 2017/886 (Cy. 214).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mewnosoder "neu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil(**1**)".

**4.** Yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Reoliadau 2017—

(a) yn lle "Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru" rhodder "Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil";

(b) yn lle "Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr" rhodder "Y Swyddfa Fyfyrwyr(**2**)".

*Lynne Neagle*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
19 Mehefin 2024

(**1**) Mae'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn gorff corfforedig a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1).

(**2**) Mae'r Swyddfa Fyfyrwyr yn gorff corfforedig a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29).